# Cofnodion Cyfarfod 4/5/2023

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Tony Parry, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Rhys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Clare Mackintosh, Moira Mai, Sion McGuiness, Eric Williams, John C Williams

Cynghorydd Dilwyn Morgan, Cyngor Gwynedd

Lis Puw *(Clerc)*.

1. **Croesawyd** pawb a diolchodd Eifion Roberts am yr anrhydedd o gael ei ddewis yn Faer Y Bala am y flwyddyn 2023-24. Diolchodd hefyd i'r cyn-Faer**,** Rhys Evans, am ei ymroddiad ar hyd y flwyddyn diwethaf a gwahoddodd Mr Evans i roi adroddiad ar ddigwyddiadau mis Ebrill:

    - Llongyfarchodd siop lyfrau Awen Meirion ar gyrraedd penblwydd 50 mlynedd ers ei sefydlu gan gwmni o wirfoddolwyr, a dymunodd yn dda i'r busnes yn y dyfodol.
    - Llongyfarchodd Gwyn Sion Ifan, Rheolwr-Gyfarwyddwr Awen Meirion, ar gael ei anrhydeddu gan Gyhoeddwyr Llyfrau am ei waith yn hybu gwerthiant llyfrau Cymraeg.
    - Llongyfarchodd Clwb Pêl-droed Y Bala ar gyrraedd yr ornest derfynol yng nghystadleuaeth Cwpan Cymru.
    - Llongyfarchodd y Cynghorydd Sion McGuiness, am agor siop newydd yn y Stryd Fawr.
    - Dywedodd iddo ef a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan fynychu cyfarfod Parc Cenedlaethol Eryri i gefnogi cais cynllunio Rheilffordd Llyn Tegid.
    - Mynychodd cyfarfod arbennig iawn i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth.
    - Dywedodd fod yr Heddlu yn cydnabod y trafferthion parcio ac ymddygiad yn yr Haf, a bod bwriad i roi heddwas ychwanegol yn y dre i fod o gymorth i'r swyddogion presennol ac i wardeiniaid Llyn Tegid.
    - Ymwelodd â'r Ganolfan Deulu a chyfrannodd £250 o Gronfa'r Maer tuag at offer aml-synhwyrol. Fe fyddai'r Ganolfan yn croesawu ymweliad gan y Cyngor.
    - Llongyfarchodd y Cynghorydd Clare Mackintosh ar gyrraedd y rhestr hir Gwobr Nofel Ditectif.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/4/22.

4. **Materion y Clerc:**

    i. Siarter 1324: Derbyniwyd nifer o ymatebion yn dangos diddordeb mewn dathlu penblwydd 700 mlynedd ers i'r Bala dderbyn Siarter. Cytunwyd i gael stondin yn ardal cerflun Tom Ellis ar ddiwrnod Ffair Y Bala (15/5/23) i godi ymwybyddiaeth a

chasglu syniadau. Y Cynghorwyr fydd yn cymryd slot wrth y bwrdd ac yn ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Bydd Eluned Jones yn creu poster a'r Clerc yn gofalu am ei gopïo.

Cytunwyd i ymgynnull gweithgor cynrychioladol i symud y mater ymlaen yn dilyn yr ymgynghoriad ar ddiwrnod y Ffair. Yn y cyfarfod hwnnw gellir rhoi ystyriaeth i ohebiaeth History Points (creu QR)

ii. Camera Cylch Cyfyng: bydd Partneriaeth Penllyn yn trafod hwn yn eu cyfarfod nesaf.

iii. Cadarnhawyd croesawu Gwenno Jones, Swyddog Ymgysylltu'n Gymunedol Parc Cenedlaethol Eryri, Etta Trumper ac Angela Jones i gyflwyno ei hunain a'u rôl i'r Cyngor ar 1/6/24

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd:

- Dywedodd y byddai cais cynllunio Rheilffordd Llyn Tegid yn debygol o gael ei ail gyflwyno.
- Roedd yn falch ganddo gyhoeddi fod £280,000 wedi ei glustnodi i greu Llwybrau Diogel i'r Ysgol, ac y bydd cyfarfodydd yn dechrau ar unwaith.
- Roedd wedi gofyn am gynnwys Heol y Castell yn y cynllun 20mya, gan fod y Ganolfan Deulu yno.
- Roedd wedi ymweld â phrosiect gwerth £8 miliwn gan y Bwrdd Dwr i wella triniaeth carthffosiaeth.
- Mae'n bwriadu symud ymlaen gyda Bala Gyfeillgar.
- Roedd yn falch o weld buddsoddiad gan fusnesau'r dref sydd yn dangos ymroddiad bositif. **Cytunwyd i** hybu hyn trwy gynnig baneri i'r busnesau ar gost y Cyngor. Derbyniwyd gwybodaeth am arddangosfa o fusnesau'r dref yng Nghanolfan Cantref yn y Plase ar hyn o bryd.
- Mae gwaith wedi ei gychwyn ar y meinciau cyfeillgarwch.
- Ymwelodd a chyfarfod gan Wasanaethau Integredig Awtistiaeth Gogledd Cymru a diolchodd iddynt am eu hymweliad i'r Hwb yn Y Bala.

*6.* **Parc Cenedlaethol Eryri**: Ystyriwyd Drafft Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri . Cytunwyd i'r Cynghorwyr dderbyn adroddiad Cyngor Cymuned Llanuwchllyn fel sail i ymateb Cyngor Tref Y Bala. Gall Cynghorwyr yrru eu sylwadau i'r Clerc erbyn 10fed o fis Mai i'w coladu cyn y dyddiad cau. Soniwyd yn arbennig am yr angen i warchod ardal cadwraeth y dref, ac i fod yn gyson wrth fynnu materion megis ffenestri pren (ac ar yr un pryd gofalu am gadw costau ynni yn isel). Mynegwyd pryder fod y broblem ffosffadau yn rhwystro datblygu.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau

i. <u>Asedau:</u> Diolchwyd am yr adroddiad cynhwysfawr. Tynnwyd sylw at bolyn fflag y Ganolfan Hamdden, meinciau, lloches bws Awen Meirion; cytunodd y Clerc i anfon at y Gymdeithas y Beibl am banel gwybodaeth Mari Jones, ac at Warden y Llyn i ofyn am finiau baw ci; bydd Eluned Jones yn ceisio cael 3 dyfynbris am baentio'r fframiau hysbysfyrddau haearn. Unwaith eto mynegwyd pryder am y niferoedd sy'n parcio yn ardal y Clwb Rygbi a all fod yn rwystr i wasanaethau brys.

ii. <u>Bioamrywiaeth:</u> diolchwyd i Emyr Puw am gyfieithu'r Cynllun, sydd wedi ei roi ar y wefan ac wedi ei anfon at Lywodraeth Cymru



ARWYDDWYD......................................................(MAER) / / ......................................(CLERC)

8. **Materion Cynllunio**: Cymeradwywyd cais **NP5/53/T401A** Amnewid ffenestri Alwminiwm / UPVC efo ffenestri UPVC gwyn plaen modern, 16 Heol Arennig, Y Bala. LL23 7AH

**9. Materion Cyllid:**

i. Glanhad arbennig i'r lloches wrth y cerflun – cymeradwywyd y dyfynbris.
ii. Ymateb yr Archwilydd Allanol i gais y Cyngor am eglurhad – heb gyrraedd
**iii.** Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf (*HMRC wedi ei dalu)*
**iv.** Cymeradwywyd derbyniadau'r mis a'r anfonebau i'w talu, yn cynnwys
   **a.** Derbyn taliad hanner cyntaf o'r Praesept: £13,500
   **b.** Derbyn ad-daliad Cyngor Gwynedd am gynnal a chadw'r Domen: £2040
   **c.** Derbyn a thalu dyfynbris Cwmni Yswiriant Zurich: £332
   **d.** Taliadau o dan Cytundebau
   **e.** Talu Gwasanaeth Cyfrifo Hill & Roberts: £156 (cynnwys TAW)
   **f.** Cyngor Gwynedd: talu rhent Y Domen £1
   **g.** Trosglwyddiad blynyddol i Gronfa'r Maer: £300

**10. Gohebiaeth:**

**i.** Un Llais Cymru: nodwyd derbyn dyddiadau hyfforddiant.
**ii.** Un Llais Cymru: nodwyd derbyn gwybodaeth am gyrsiau ar-lein ar Fioamrywiaeth.
**iii.** Un Llais Cymru: nodwyd derbyn llythyr cyflwyniad Emyr John, Swyddog Cyfathrebu.
**iv.** Cyngor Gwynedd: ystyriwyd yr Holiadur Perfformiad
**v.** Cyngor Gwynedd: Tim Tacluso; awgrymwyd lleoliadau
**vi.** Parc Cenedlaethol Eryri : nodwyd derbyn llythyr Jonathan Cawley am wrthod cais Rheilffordd Llyn Tegid
**vii.** Ymgynghoriad Gwasanaeth Tân a Brys – nodwyd derbyn gwybodaeth am gyfarfod 21/4/23
**viii.** Cyngor Cymuned Pistyll – cytunwyd i gefnogi'r gŵyn am ddiffyg hyfforddiant cyfrwng Cymraeg gan Un Llais Cymru
**ix.** Plains Rally – awgrymwyd Clwb Ped-droed Llanuwchllyn fel stiwardiaid.

**11. Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Cytunwyd i John Caradog Williams gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfod Canolfan Tegid 9/5/23 am 7.00pm, ac i'r Clerc ddirprwyo yn absenoldeb Dilys Evans.

12. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref**

i. Angen i lanhau arwyddion; ymddangosiad busnes yn y dref (SM): dywedodd Cynghorydd Dilwyn Morgan y byddai'n ymateb i'r materion hyn.
ii. Strategaeth cyfathrebu: diolchwyd i CM am baratoi drafft i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.
iii. Cododd ER mater torri ochrau ffyrdd; byddai'n fuddiol i Gyngor Gwynedd a NMWTRA osod arwyddion yn dangos nad yw gwair yn cael ei dorri'n gynnar er mwyn helpu natur.
iv. Holwyd am wasanaeth y warden baw cŵn, yn arbennig yn ardal y Plase a Cae Mawr.

*Amser gorffen: 9.15pm*



ARWYDDWYD.......................................................(MAER) / / .......................................(CLERC)